


## Y Gymraeg – cymorth i rieni

Hoffwn dynnu eich sylw at wefan newydd sydd wedi'i datblygu i roi gwybodaeth, arweiniad a chymorth ymarferol i rieni sy'n cefnogi eu plant gyda'r Gymraeg.
Mae'r wefan yn cyflwyno patrymau iaith mewn ffordd syml, yn cynnig adnoddau hygyrch i'w defnyddio gartref, ac yn helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus wrth gefnogi eu plant.

https://sites.google.com/hwbcymru.net/cymorthirienisupportforparents/home-cartref

## *The Welsh language – support for parents*

*I would like to draw your attention to a new website that has been developed to provide information, guidance, and practical support for parents who are supporting their children with Welsh.*
*The website presents language patterns in a simple way, offers accessible resources to use at home, and helps parents feel more confident in supporting their children."*

https://sites.google.com/hwbcymru.net/cymorthirienisupportforparents/home-cartref

---

## Gwersyll Glan-llyn – bl.5a6

Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn edrych ymlaen yn fawr at fynd i Lan-llyn am dridiau ar y 18fed o Fai. Cawsom sgwrs gyda'r plant i gyd heddiw wrth baratoi, a bydd gwybodaeth bwysig ee ffurflenni iechyd ac ati yn eich cyrraedd chi fel rhieni naill ai heddiw neu ddydd Llun.

Taliadau – cofiwch wirio eich cyfrifon ParentPay cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda. Mi gofiwch inni rannu'r taliadau dros 4 mis: #Glan-llyn1, #Glan-llyn2, #Glan-llyn3 a #Glan-llyn4. Cysylltwch â Mrs Wendy James yn y swyddfa os hoffech gymorth gyda hyn.

## *Urdd Glan-llyn Centre – yrs.5&6*

*Years 5 and 6 pupils are very much looking forward to going to Glan-llyn for three days on the 18th of May. We had a discussion with all the children today while preparing, and important information i.e medical forms etc will reach you as parents either today or on Monday.*

*Payments – please remember to check your ParentPay accounts as soon as possible. You may remember that we split the payments over 4 months: #Glan-llyn1, #Glan-llyn2, #Glan-llyn3 and #Glan-llyn4. Please contact Mrs Wendy James in the office if you would like support with this.*

---






## Ras liwiau – Ta-ta i'r Ca'

Bydd tocynnau ar gyfer y digwyddiad hwn ar werth drwy gydol wythnos nesa (Mai 11-15) y tu allan i giatiau'r ysgol, neu yn Swyddfa Mrs Wendy James yn y bore ac ar ddiwedd y dydd. £6 i bob plentyn.

'Ta-Ta i'r Ca' – sef ras liwiau i'w chynnal ar Gae Yr Ysgol Gymraeg ar ddydd Iau olaf yr hanner tymor hwn (21/05/2026 am 3:30yp) cyn i'r gwaith gychwyn ar adeiladu'r Estyniad.
Byddwn yn colli defnydd o'r cae yn ystod y flwyddyn a hanner o adeiladu, felly ffarwelio gyda'r cae am gyfnod yn unig fyddwn ni!
Gweler fwy o fanylion ar boster y digwyddiad.

## *Colour run – farewell to the field*

*Tickets for this event will be on sale throughout next week (May 11–15) outside the school gates, or from Mrs Wendy James's Office in the morning and at the end of the day. £6 per child.*

*'Ta-Ta i'r Ca' – is a colour run to be held on the school field on the last Thursday of this half term (21/05/2026 at 3:30pm) before work begins on building the extension.*
*We will lose use of the field during the year and a half of construction, so this is just a temporary farewell to the field!*
*Please see the event poster for more details.*

## Noson Wobrwyo Celf a Chrefft




Poster llawn ar waelod y llythyr

Mae'r Urdd yn ymestyn croeso i noson wobrwyo Celf a Chrefft Ceredigion yn Ysgol Dyffryn Cledlyn i ddechrau'n brydlon am 6yp ar yr 20$^{fed}$ o Fai. Bydd yn gyfle i weld lluniau o'r gwaith ddaeth i'r brig yng Ngheredigion ac yn gyfle i'r disgyblion dderbyn eu tystysgrifau. Bydd y noson yn dechrau gyda'r cystadlaethau ADY cyn symud ymlaen i'r cynradd a'r uwchradd gyda'i gilydd. Ni fydd tâl mynediad, ond bydd cyfle i bawb brynu tocyn raffl (arian parod yn unig).

Os ydych yn bwriadu mynychu, a wnewch chi roi gwybod i Mrs Buddug Davies LloydB10@hwbcymru.net cyn y noson. Diolch

## *Art and Craft Awards evening*

*The Urdd warmly invites you to the Ceredigion Art and Craft Awards Evening at Ysgol Dyffryn Cledlyn, starting promptly at 6pm on the 20$^{th}$ of May. It will be an opportunity to view pictures of the work that came top in Ceredigion and for pupils to receive their certificates. The evening will begin with the ALN competitions before moving on to the primary and secondary sections together. There will be no admission charge, but everyone will have the opportunity to buy raffle tickets (cash only).*

*If you intend to attend, please let Mrs Buddug Davies know at* LloydB10@hwbcymru.net *before the evening. Thank you.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – C.Rh.A


## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A

## Calendr Hanner Tymor



Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig Tymor yr haf 2026:

- Ras liwiau – Ta-Ta i'r Ca' : Mai 21$^{ain}$
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd : Mai 23 – 29$^{ain}$
- Tynnu lluniau dosbarthiadau : Mehefin 10$^{fed}$
- H.M.S : Mehefin 22$^{ain}$ (Dydd Llun)
- Mabolgampau Ysgol : Mehefin 25+26$^{ain}$
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 16$^{eg}$
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 17$^{eg}$

### *Summer term 2026 important dates:*


- *Colour Run – Farewell to the Field : May 21$^{st}$*
- *Urdd National Eisteddfod : May 23 – 29$^{th}$*
- *Class photographs : June 10$^{th}$*
- *I.N.S.E.T Day : June 22$^{nd}$ (Monday)*
- *School Sports Day : June 25+26$^{th}$*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 16$^{th}$*
- *Last day of term : July 17$^{th}$*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***


**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**08/05/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru




Gŵyl Farddoniaeth Aberystwyth Poetry Festival – penwythnos hwn





Sioe Sir Ceredigion
ABERYSTWYTH
Ceredigion County Show

**Beth am fynd ati i gwblhau'r tasgau ar gyfer Sioe Aberystwyth eleni? Mae croeso i chi gystadlu ym mhob un o'r cystadlaethau o fewn eich grŵp oedran.**

**Dewch â'ch gwaith i'r ysgol erbyn:-**

- **Dydd Gwener y 12fed o Fehefin (neu mae croeso i chi fynd â nhw i'r Sioe ar fore'r sioe)**
- **I Mrs Buddug Davies Blwyddyn 5 Rheidol**
- **Gosodwch y label ar y cefn gan ddefnyddio clip papur ac nid glud, gyda'r wybodaeth yma os gwelwch yn dda.**
- **Eich enw llawn ar y cefn**
- **Enw Dosbarth a Blwyddyn**
- **Rhif y gystadleuaeth yn glir**

**Enw:**

**Ysgol Gymraeg Aberystwyth**

SIOP FFOTO SHOP

**Ffotograffiaeth / Photography**

Both colour and Black and White photographs are permitted, made with either digital or film cameras. A maximum of two entries only per person in any class will be permitted. **All photographs to be mounted on black card no larger than A4 or will not be judged.** Selective printing or digital manipulation to adjust print colour/ quality or cropping, to improve photographs is encouraged.

**Disgyblion Cynradd / Primary school pupils**

Taleb yn rhoddedig gan **'Siop Ffoto'**
Voucher donated by **'Ffoto Shop'**

67. Coeden / A Tree
68. Fy hoff fwyd / My favourite food
69. Anifail neu bryfyn / An animal or insect

**Special 8**
A silver cup to be won outright and a rosette will be awarded to the Best Exhibit. Siop Ffoto Shop Voucher to the best exhibit.
A Rosette will be awarded to the exhibitor gaining the highest number of points in classes 67-69.

**ADRAN Y PLANT / CHILDREN'S SECTION**

**MEITHRIN a DERBYN / NURSERY and RECEPTION**

76. Enfys unrhyw gyfrwng / Rainbow any medium (dim mwy na A4 / No bigger than A4)
77. Carreg gron wedi'i pheintio / A painted pebble
78. Cacen " Rice Crispy" wedi'i addurno / A decorated "Rice Crispy" Cake
79 Dafad unrhyw gyfrwng / Sheep any medium

**Special 11**
A silver cup to be won outright and a rosette will be awarded to the Best Exhibit.
A Rosette will be awarded to the exhibitor gaining the highest number of points in classes 76 -79.

**BLWYDDYN 1 a 2 / YEARS 1 & 2**

80. Anifail wedi'i beintio / Painting of an animal (Dim mwy na A4 / Maximum size A4)
81. Wellington wedi'i addurno/ A decorated Wellington boot
82. Bisged wedi'i addurno / A decorated biscuit
83. Eitem 2D neu 3D yn cyfleu y thema "Breuddwydion" / 2D or 3D item portraying – "Dreams"

**Special 12**
A silver cup to be won outright and a rosette will be awarded to the Best Exhibit.
A Rosette will be awarded to the exhibitor gaining the highest number of points in classes 80 - 83.

**BLWYDDYN 3 a 4 / Years 3 & 4**


84. Plât papur wedi'i addurno / A decorated paper plate
85. Pedair Brownie / Four Brownies
86. Buwch unrhyw gyfrwng / A Cow any medium
87. Eitem 2D neu 3D yn cyfleu y thema "Breuddwydion" / 2D or 3D item portraying – "Dreams"

**Special 13**
A silver cup to be won outright and a rosette will be awarded to the Best Exhibit.
A Rosette will be awarded to the exhibitor gaining the highest number of points in classes 84 - 87.

**BLWYDDYN 5 a 6 / YEARS 5 & 6**

88. Mochyn unrhyw gyfrwng / A Pig any medium
89. Pedair sleisen o "tray bake" / Four slices from a tray bake
90. Trefniant Blodau mewn tebot / A Flower arrangement in a Teapot
91. Eitem 2D neu 3D yn cyfleu y thema "Breuddwydion" / 2D or 3D item portraying – "Dreams"




Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
@YrYsgolGymraeg
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
01970 617613
Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James